

# Y Rhyfel Byd Cyntaf : The First World War

## Pandy Tudur

### Y Milwyr a Fu Farw • The Soldiers Who Died

**John Robert Jones**, Preifat 25403, 8fed Bataliwn, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Ganed John Robert yn 1895 yn fab i John Jones, Pen y Bont, Pandy Tudur. Bu farw ar yr 2il o Dachwedd, 1915, yn 22 oed. Mae coffa amdano ar gofeb Helles, ger gorynys Gallipoli.

**Harold Morris**, Preifat 15216, 10fed Bataliwn, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Ganed yn 1898 yn fab i John R. a Sarah Ann Morris. Roedd y teulu'n byw yn 3 Glan Dŵr pan ymadawodd Harold i ymuno â'r fyddin. Bu farw ar faes y gad ar yr 16eg o Awst, 1916, yn 18 oed, trwy gael ei saethu'n anghel yn ei ben. Mae coffa amdano ar gofeb Thiepval, yng ngogledd Ffrainc.

**Hugh Hughes**, Preifat 22355, 7fed Bataliwn Troedfilwyr Ysgafn Swydd Amwythig y Brenin. Mab ydoedd i Owen a Jane Hughes, Nannerth, Pandy Tudur. Bu farw ar faes y gad ar yr 11eg o Ebrill, 1917, yn 30 oed. Mae Cofeb iddo yn Arras, Ffrainc. Cyn ymuno â'r fyddin bu'n arddwr yn Hafodunos, Caerhun, a Pheniarth, Tywyn.

**Robert John Evans**, Gynnwr 213072, 460fed Magnelfa, y Cadfagnelwyr Brenhinol. Ganed tua 1898, y pumed o ddeg o blant a aned i Evan a Jane Evans, Tan Lan. Fe'i hanafwyd yn y rhyfel a bu farw yn Ysbyty Cyffredinol y 1st Canadian yn Etaples ar 15-8-1917, yn 19 oed. Er cof amdano fe chwaraewyd y 'Death March' yng nghapel Pandy Tudur y nos Sul ganlynol. Fe'i claddwyd ym mynwent filwrol Etaples, Ffrainc, ac mae'i enw hefyd ar fedd ei daid a'i nain ym mynwent Pandy Tudur hefyd.

**Ifor Jones**, Is-Gorporal 35614, 2il Fataliwn, Cyffinwyr De Cymru. Mab ydoedd i William a Sarah Jones, Hen Gapel, Pandy Tudur. Bu farw ar 18-8-1918, yn 22 oed. Canwyd Anthem, er cof amdano, yng nghapel Pandy Tudur ar y nos Sul wedi iddynt dderbyn y newydd drwg. Cynhaliwyd cystadleuaeth i ysgrifennu penillion coffa iddo yn Eisteddfod Pandy Tudur, a gynhaliwyd ar y 5ed o Ebrill 1920. Mae coffa amdano yn Estyniad Mynwent Gymunedol Outersteene, Bailleul, Ffrainc, ger y ffin â Gwad Belg.

**Lloyd George Williams**, Preifat 24090, Bataliwn Iaf, Catrawd Auckland, N.Z.E.F. Ganed Lloyd George Williams yn 1900 yn fab i Elizabeth Williams, o deulu Bron Llan, Gwytherin, a Bryniau Pair Uchaf, Pandy Tudur. Bu'n gweithio gartref a hefyd ar rai o'r ffermydd cyfagos cyn ymfudo i Awstralia lle cyfarfu â'i ddyweddi, Annie.


Gan na chaniatawyd iddo ymuno â byddin Awstralia oherwydd nad oedd yn ddigon tal, ymunodd â byddin Seland Newydd. Fe'i lladdwyd yn Ffrainc ar y 7fed o Fehefin, 1917, yn 26 oed. Mewn llythyr gan ei Gadfridog a anfonwyd adref at ei fam, dywedwyd iddo ef a'i swyddog gael eu lladd yn ddiatreg gan yr un siel ar ben bryn Messines. Mae coffa amdano ar gofeb Messines Ridge (yn y rhan yn ymwneud â Seland Newydd) ger tref Mesen, Gwlad Belg.




Robert John Evans



Plac er Cof, Memorial Plaque



Lloyd George Williams



Cwpwrdd llyfrau a'r plac arno,  
Plaque on the bookshelves

**John Robert Jones**, Private 25403, 8th Battalion, Royal Welsh Fusiliers. John Robert was born in 1895, the son of John Jones, Pen y Bont, Pandy Tudur. He died on the 2nd of November, 1915, at the age of 22. He is commemorated on the Helles memorial, near the Gallipoli peninsula.

**Harold Morris**, Private 15216, 10th Battalion, Royal Welsh Fusiliers. Born in 1898, the son of John R. and Sarah Ann Morris. The family lived at 3 Glan Dŵr when Harold left to join the army. He died on the field of battle on the 16th of August, 1916, at the age of 18, after being fatally shot in the head. He is commemorated on the Thiepval memorial, in northern France.

**Hugh Hughes**, Private 22355, 7th Battalion King's Shropshire Light Infantry. He was the son of Owen and Jane Hughes, Nannerth, Pandy Tudur. He died on the field of battle on 11th of April, 1917, at the age of 30. He has a memorial at Arras, France. Before joining the army he was a gardener at Hafodunos, Caerhun, and Peniarth, Tywyn.

**Robert John Evans**, Gunner 213072, 460th Battery, Royal Field Artillery. Born about 1898, the fifth of ten children born to Evan and Jane Evans, Tan Lan. He was wounded in the war and died at the 1st Canadian General Hospital in Etaples on 15-8-1917, at the age of 19. The 'Death March' was played in his memory at Pandy Tudur chapel the following Sunday evening. He was buried at Etaples military cemetery, France, and his name also appears on his grandparents' grave at Pandy Tudur cemetery.

**Ifor Jones**, Lance Corporal 35614, 2nd Battalion, South Wales Borderers. He was the son of William and Sarah Jones, Hen Gapel, Pandy Tudur. He died at the age of 22 on 18-8-1918. Anthem was sung in his memory at Pandy Tudur chapel on the Sunday evening after the sad news was received. A competition was held to compose memorial poems in his memory at the Pandy Tudur Eisteddfod, held on the 5th of April 1920. He is commemorated at the Outersteene Communal Cemetery Extension, Bailleul, France, near the border with Belgium.

**Lloyd George Williams**, Private 24090, 1st Battalion, Auckland Regiment, N.Z.E.F. Lloyd George Williams was born in 1900, the son of Elizabeth Williams, of the Bron Llan family, Gwytherin, and Bryniau Pair Uchaf, Pandy Tudur. He worked at home as well as on neighbouring farms before emigrating to Australia, where he met his fiancé, Annie.

As he was not permitted to join the Australian army because he was not tall enough, he joined the New Zealand army. He was killed in France on the 7th of June, 1917, at the age of 26. In a letter from his General sent home to his mother, it is said that he and his officer were killed instantly by the one shell at the top of Messines hill. He is commemorated on the Messines Ridge memorial (in the New Zealand section) near the town of Mesen, Belgium.

